# Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 30 Mehefin 2003

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dynodir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

## *Gofyn i Brif Weinidog Cymru*

**David Melding (Canol De Cymru);** Yn ystod tymor cyntaf y Cynulliad Cenedlaethol (1999-2003), sawl darn o Is-ddeddfwriaeth a wnaed gan y Cynulliad a faint o'r Gorchmynion hyn a aeth drwy: (i) y weithdrefn lawn, (ii) y weithdrefn arferol, (iii) y weithdrefn gyflym, (iv) y weithdrefn weithredol. (WAQ26569)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol*

**David Melding (Canol De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatgan pryd y mae'n disgwyl cyhoeddi'r strategaeth genedlaethol ddrafft ar awtistiaeth yng Nghymru, a pha drefniadau a gaiff eu gwneud ar gyfer ymgynghori. (WAQ26570)**R**

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru);** Faint o bobl yng Nghymru sy'n gymwys i gael gofal nyrsio yn rhad ac am ddim. (WAQ26572)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru);** Pa ddarpariaeth gyllidebol a wnaed gan bob Bwrdd Iechyd Lleol ar gyfer asesu a darparu gofal iechyd parhaus y GIG yng Nghymru yn ystod y flwyddyn ariannol 2003-04, ac a all y Gweinidog roi dadansoddiad o'r gost honno inni. (WAQ26573)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru);** Pa ddarpariaeth gyllidebol benodol a wnaed gan Adran GIG Cymru ar gyfer asesu a darparu gofal iechyd parhaus y GIG yng Nghymru yn ystod y blynyddoedd ariannol 2003-04 a 2004-05. (WAQ26574)

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru);** Beth oedd y gost o asesu a darparu gofal iechyd parhaus y GIG yn ystod y blynyddoedd ariannol 2001-02 a 2002-03. (WAQ26575)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad*

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Beth oedd cyfanswm y gost i'r Cynulliad Cenedlaethol am y camau cyfreithiol a gymerwyd yn erbyn 'Dot's Diner' i gael gwared ar y planhigion a'r trugareddau ger y caffi sydd ar ymyl yr A489 rhwng y Trallwng a Machynlleth (WAQ26571)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes*

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** A yw'r Gweinidog yn bwriadu cynnal adolygiad o'r polisi ar gyfer cludiant ysgolion ac, os felly, pa fath o adolygiad. (WAQ26576)